# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 20 Medi 2011**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(15) v5

**1. Teyrnged i Lowyr y Gleision**

**2. Datganiad gan y Prif Weinidog: Pwll y Gleision (45 munud)**

**3. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (60 munud)**
Gweld y cwestiynau

**4. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**
Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**5. Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cyngor Sir Penfro (45 munud)**

**6. Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2011 - wedi'i ohirio (15 munud)**

**7. Dadl ar Wasanaethau Mamolaeth (60 munud)**
**NDM4796 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried dull Llywodraeth Cymru o wella gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru; ac

2. Yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn credu:

a) y dylai gwasanaethau mamolaeth ledled Cymru gael eu trefnu i ddiwallu anghenion menywod a'u babanod;

b) y dylai popeth posibl gael ei wneud i ddiogelu a gwella iechyd menywod a'u

babanod; ac

c) y dylai beichiogrwydd a geni plant fod yn brofiad diogel sy'n gwella ac yn cyfoethogi bywyd.

**Dogfen Ategol**

[Gweledigaeth Strategol ar gyfer y Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru]

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru: ac

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

Y byddai llai o gyfleoedd i gael Gwasanaethau Mamolaeth dan arweiniad meddygon ymgynghorol yn arwain at fwy o risg i famau a babanod.

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y pryder sylweddol ymysg y cyhoedd ynghylch dyfodol gwasanaethau mamolaeth yn y Gogledd.

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i warantu darpariaeth gwasanaethau mamolaeth dan arweiniad meddygon ymgynghorol mewn ysbytai cyffredinol dosbarth yn y Gogledd.

**Gwelliant 5 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod pwysigrwydd mynediad prydlon at wasanaethau mamolaeth brys mewn ardaloedd gwledig.

**Gwelliant 6 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau mamolaeth a ddarperir i gleifion o Gymru gan ysbytai yn Lloegr.

**Gwelliant 7 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal a chadw llefydd ar gyfer hyfforddiant bydwreigiaeth yng Nghymru, er mwyn darparu lefel gynaliadwy o ddatblygiad proffesiynol ar gyfer y rheini sy'n gweithio yn y gwasanaethau mamolaeth yn GIG Cymru.

**Gwelliant 8 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cynllun cyflenwi terfynol ar gyfer gwasanaethau mamolaeth er mwyn ei drafod, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun terfynol ar sut y bydd yn gweithredu ei weledigaeth ar gyfer gwasanaethau mamolaeth, yn cynnwys nodau clir a chanlyniadau mesuradwy, er mwyn ei drafod.

**Gwelliant 9 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) Amlinellu'r ffordd y mae'n bwriadu dal Byrddau Iechyd Lleol i gyfrif a'r mesurau y bydd yn eu cymryd i sicrhau bod BILl yn cyrraedd targedau mamolaeth yn y dyfodol; a
b) Gweithio gyda BILl wrth recriwtio a chadw staff meddygol fel bod pob BILl:
(i) bodloni'r safon Birthrate plus ar gyfer trefniadau staffio bydwragedd;
(ii) yn cyflawni'r lefelau staffio a argymhellir gan Goleg Brenhinol y Nyrsys ar gyfer nyrsio gynaecolegol; a
(iii) yn meddu ar wasanaeth mamolaeth sy'n bodloni'r safonau ansawdd cenedlaethol drwy'r amser.

**Cyfnod pleidleisio**

Bydd y Cynulliad yn cwrdd eto yn y Cyfarfod Llawn am 13:30 Dydd Mercher, 21 Medi 2011